**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED**
**LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

Ebost / email: clerc.llansantffraed@btinternet.com
Tel: 01545 570323

**COFNODION HEB EU CADARNHAU**

**UNCONFIRMED MINUTES**

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd am 8.00 pm ar nos Fawrth, 2 Mehefin 2015 yn yr Ystafell Ddarllen, Llanon.**

**Minutes of a meeting of the Council held at 8.00 pm on Tuesday, 2 June 2015 at the Reading Room, Llanon.**

Yn bresennol:
Cadeirydd: Cyng G Lewis
Cynghorwyr G Colledge, H Hayfield, J Hughes, M James, M Lawton, L Lloyd, D Morgan, I Reed a B Tomlins.
Mr Denfer Morgan (Clerc).

Present:
Chairman: Cllr G Lewis
Councillors G Colledge, H Hayfield, J Hughes, M James, M Lawton, G Lewis, L Lloyd, D Morgan,I Reed and B Tomlins.
Mr Denfer Morgan (Clerk).

**1. Ymddiheuriadau / Materion Personol / Datgelu Buddianau Personol.**
Ymddiheurodd y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**1. Apologies / Personal Matters / Disclosure of Personal Interests.**
County Councillor Dafydd Edwards apologised for his inability to attend the meeting.

**2. Cofnodion o'r Cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 5 Mai 2015.**
Cadarnhawyd y cofnodion canlynol fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd:-

a) Cyfarfod Blynyddol y Cyngor yn amodol ar gywiro Cofnod 6 i ddarllen fel a ganlyn:
*PENDERFYNWYD penodi Mr Elfyn Jones yn archwiliwr annibynnol, Cynghorydd Malcolm Lawton yn archwiliwr mewnol a BDO yn archwilwyr allanol ar gyfer 2014/2015.*
b) Cyfarfod Misol y Cyngor

**2. Minutes of the Meetings held on 5 May 2015.**
The following Minutes were confirmed as being a correct record and signed by the Chairman:-

a) Annual Meeting of the Council subject to correcting Minute 6 to read as follows:
*It was RESOLVED to appoint Mr Elfyn Jones as the independent auditor, Councillor Malcolm Lawton as the internal auditor and BDO as the external auditors for 2014/15.*
b) Monthly meeting of the Council

**3. Materion yn codi o'r Cofnodion.**

**3. Matters arising from the Minutes.**

**3.1 Mainc ym Maesgwynne**
Adroddwyd bod y fainc wedi cyrraedd a'I rhoi yn ei le gan y perchennog tir. Roedd angen sicrhau fod y fainc wedi'i osod yn ddiogel ac ailosod y plaque, gyda changen Merched y Wawr yn cael

**3.1 Bench at Maesgwynne**
It was reported that the bench had been delivered and put in place by the landowner. There was a need to ensure that the bench was secure and the plaque replaced, with the Merched y Wawr branch

gwybod am hyn.

being informed accordingly.

**3.2 Gwreiddyn Coeden ar Lwybr Troed ger Llwynteg**
Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Jim Hughes yn dilyn hwn i fyny.

**3.2 Tree Stump on Footpath near Llwynteg**
It was agreed that Councillor Jim Hughes would follow this up.

**3.3 Cofnod 7.1** – dywedodd y Cynghorydd Jim Hughes nad oedd asbestos yn bresennol yn y rwbel a oedd wedi ei ddwyn i sylw'r Cyhgor.

**3.3 Minute 7.1** – Councillor Jim Hughes advised that no asbestos was present in the rubble which had been brought to the Council's attention.

**4. Eiddo**
**(a) Adroddiad yr Arolygiad**
Cynghorwyd y Cynghorydd Harry Hayfield taw'r materion oedd angen sylw yn ystod yr archwiliad misol oedd y maes chwarae, y cyrtiau tenis, y maes parcio a'r banc poteli.

**4. Property**
**(a) Inspection Report**
Councillor Harry Hayfield that the matters needing attention during the monthly inspection were the play area, tennis courts, car park and bottle bank.

**(b) Diweddariad ar y Ceisiadau Grant**
Cynghorodd y Clerc nad oedd hysbysiad wedi'i dderbyn hyd yn hyn gan Gyngor Sir Ceredigion parted y ddau brosiect isod:
- adeiladu sied storio
- ailorchuddio'r cyrtiau tenis.

PENDERFYNWYD y dylid bwrw 'mlaen gyda'r ddau brosiect unwaith y ceor cadarnhad o'r grantiau.

**(c) Up-date on the Grant Applications**
The Clerk advised that no notification had been received to date from Ceredigion County Council with regard to the following two projects:
- construction of a storage shed
- resurfacing of the tennis courts

It was RESOLVED that both projects proceed once the grants had been confirmed.

**5. Cyllid**
PENDERFYNWYD:-

i) cymeradwyo Cyfrifon Blynyddol 2014-15 fel y'u cyflwynwyd ac i'w hanfon i'r archwiliwr mewnol cyn eu cyflwyno i'r archwilwyr allanol cyn 30 Mehefin 2015; a
ii) talu anfoneb yn y swm o £240 gan Ground Tech Ltd ynghylch gwaith ychwanegol yn 2014.

**5. Finance**
It was RESOLVED:-

i) to approve the Annual Accounts for 2014-15 as presented and that they be forwarded for internal audit for forwarding to the external auditors before the 30 June 2015; and
ii) to pay an invoice in the sum of £240 from Ground Tech Ltd in respect of additional work in 2014.

**6. Gohebiaeth ac Ymgynghoriadau**

**(a)** Nodwyd y byddai angen i'r Cyngor gyhoeddi'r Gofrestr o Fuddiannau Aelodau ar wefan y Cyngor o nawr ymlaen.
**(b)** Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru –

**6. Correspondence and Consultation Matters**

**(a)** It was noted that the Council would need to publish the Register of Members Interests on the Council's website from now on.
**(b)** Welsh Government Consultation –

Amddiffyn Asedau Cymunedol
**PENDERFYNWYD** nodi'r ymgynghoriad ac y byddai'r Clerc yn dod a gwybodaeth pellach ar y mater cyn y dyddiad cau ym mis Medi.

Protecting Community Assets
It was **RESOLVED** to note the consultation and that the Clerk would be bringing further information on the matter prior to the closing date in September.

**(c)** Nodwyd Digwyddiad Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar faterion diogelwch cymunedol yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ar 10fed Mehefin.

**(c)** The Public Engagement Event on community safety matters at Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron on 10th June was noted.

.

**7. Unrhyw Fater Arall**

**7. Any Other Business**

**7.1** Cyfeiriodd y Cynghorydd D Morgan at lythyr a anfonwyd at y Cyngor yn gofyn iddo gymryd camau i ddiogelu'r chalet ym Morfa Esgob drwy ei symud yn bellach o'r arfordir.
**PENDERFYNWYD** ystyried y cais ymhellach yn y cyfarfod nesaf ac, yn y cyfamser, i wneud ymholiadau am y caniatad cynllunio a fyddai angen.

**7.1** Councillor D Morgan referred to a letter which had been sent to the Council asking it to consider taking steps to safeguard the chalet at Morfa Esgob by moving it inland. It was **RESOLVED** to consider the request further at the next meeting and, in the meantime, to make enquiries about the planning permission that would be needed.

**7.2** Cyfeiriodd y Cynghorwyr Morgan a Tomlins at gyflwr y trac a oedd yn arwain at y meysydd chwarae a PHENDERFYNWYD gofyn i'r Cynghorydd Dafydd Edwards i ymchwilio a oedd 'planings' ar gael gan y Cyngor Sir er mwyn gorchuddio'r trac.

**7.2** Councillors Morgan and Tomlins referred to the condition of the track leading to the playing fields and it was RESOLVED to request Councillor Dafydd Edwards to investigate whether 'planings' could be acquired from the County Council to cover the track.

**7.3** Fe gyfeiriodd y Cynghorwyr Hughes a Reed at erthygl diweddar ar faw cŵn yn y Western Mail a oedd wedi'i argraffu a'i osod ar yr hysbysfwrdd.

**7.3** Councillors Hughes and Reed referred to a recent article on dog fouling in the Western Mail which had been printed and placed on the notice board.

**7.4** Fe gyfeiriodd y Cynghorydd M James at y seddau a oedd yn cael eu gosod ger Gwesty'r Castell.

**7.4** Councillor M James referred to the seating being placed near the Castle Hotel.

**9. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – Cyfarfod Blynyddol a'r Cyfarfod Misol**
Nos Fawrth 4 Gorffennaf 2015.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30 y.h.

**9. Date of Next Meeting – Annual Meeting and Monthly Meeting**
Tuesday 4 July 2015.

The meeting concluded at 9.30 p.m.